


Papur Pawb

Pris: 50c

lonawr 2017

Rhif 425

tud 3
Pobl a Phethetud 4, 5, 8
Ysgol Tal-y-bonttud 9
Llwybr Taliesintud 12
Y Ffair Aeaf

Profi'r Melys a'r Chwerw yn Berlin

Bu teulu o Dal-y-bont yn ffodus i osgoi yr ymosodiad terfysgol erchyll yn Berlin dydd Llun, Rhagfyr 19. Roedd Robat ac Enid Gruffudd, a'i frawd Heini a Catrin Alun yn mwynhau eu hunain yn braf mewn tŷ opera yng nghanol Berlin pan glywson nhw am yr ymosodiad — ac fe sylweddolodd Heini iddo ef a'i deulu fod, y dydd cynt, yn yfed Glühwein wrth un o'r union stondinau yr ymosodwyd arnynt, mewn ffair Nadolig gerllaw'r Eglwys Goffa wrth stryd enwog y Ku'damm.

Aeth 18 o'r teulu draw o Gymru i Berlin er mwyn bod yn bresennol mewn seremoni arbennig yn Wittenberg rai dyddiau ynghynt, lle dadorchuddwyd yr enw stryd newydd "Bossestrasse" er cof am Paul Bosse, Tad-cu Robat a Heini, a'i wraig Kaethe, a lofruddiwyd gan y Naziaid mewn gwersyll-garchar yn 1944. Daeth



tyrfa dda ynghyd (gan gynnwys aelodau o'r teulu yn yr Almaen) i fwynhau'r seremoni urddasol, oedd yn cynnwys caneuon ac areithiau gan gynrychiolwyr y dre, a'r hanesydd Hans-Jürgen Grabbe. Mae Dr Grabbe yn academydd o fri sydd wrthi'n paratoi fersiwn Almaeneg o lyfr Heini, *Yr Erlid*, oedd yn Llyfr y Flwyddyn yn 2013, ac a gaiff ei gyhoeddi yn yr Almaen cyn bo hir.

parhad tud 7

Sortio'r Seren – tud 8



Papur Pawb


Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont 832483
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654) 781324
Ceri Morgan

Eglwysfach/Ffwrnais: Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais
Rhwychweithiau
cymdeithasol: Ceri Morgan

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Gervyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwennllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwennllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.



HANES FFOTOGRAFFYDD LLEOL

YN CYNNWYS FFOTOGRAFFAU DIFYR O'R ARDAL GAN MLYNEDD YN ÔL

ar werth am £5 yn Siop Cynfelyn a siop Y Lolfa
elw at achosion da lleol

Derbyn Aelodau Newydd

Braint fawr oedd cael derbyn pedair o hâd yr eglwys yn gyflawn aelodau o Eglwys Iesu Grist, fore Sul 11 Rhagfyr 2016. Diolch i'r Parch Richard Lewis am eu paratoi a'u derbyn mewn oedfa hyfryd iawn.



Richard Lewis, Anwen Jenkins, Alys Jones, Sara Jenkins a Lois Jones

Dyddiadur

IONAWR

- 14 Shelter Cymru** Bore Coffi, Ystafell Haearn 10.30-12
15 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Terry Edwards
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrdd Weddi
16 Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch 'Cerdded Llwybr yr Arfordir' (Beryl Vaughan)
19 Wildfowler Bingo
22 Bethel 10 Gweinidog (C)
Nasareth 3.30 Bugail
Rehoboth 10 Gordon Macdonald
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth i bob oedran
28 Sefydliad y Merched Taliesin Taith i'r Bathdy Brenhinol, Llantrisant

CYFARFOD CYHOEDDUS Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed

i drafod yr angen am balmant nos Fawrth 17 Ionawr yn yr Ystafell Haearn 7.00yh. Mae Mark Williams AS a chynghorwyr lleol wedi eu gwahodd i drafod y sefyllfa beryglus o gerdded ar hyd priffordd A487 drwy bentrefi Eglwysfach a Ffwrnais.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn Cymorthdaliadau

Gwahoddir ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a mudiadau gwirfoddol lleol.

Dylid anfon ceisiadau ynghyd â chopi o'r fantolen ddiweddaraf at:

Y Clerc

Cyngor Cymuned Llangynfelyn, Blaenddôl, Tre'r-ddôl, Machynlleth, Powys, SY20 8PL
erbyn **dydd Mawrth, 31 Ionawr 2017** fan bellaf

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

- 29 Bethel** 10 Undebol yr Ofalaeth ym Methel
Nasareth 10 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Rhidian Griffiths
Eglwys Dewi Sant 10 Cyfarfod Undebol gyda Llandre a Llangorwen
Eglwys Sant Pedr, Elerch Cyfarfod Undebol yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch
31 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn 7.30 'John Thomas y Cambrian Gallery - Cardi a Ffotograffydd' (Iwan Jones)

CHWEFROR

- 2 Wildfowler** Bingo
5 Bethel 10 Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 2 Bugail
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
6 Pwyllgor y Sioe, 8.00 yng ngwaelod y Neuadd Goffa
7 Sefydliad y Merched Taliesin 'Dementia' (Nicky Herriot)
8 Cyfarfod Blynyddol y Neuadd Goffa 8 yn y neuadd isaf
10 Clwb Nos Wener 8 Sioe Bwci Bo gyda Dim Ond Dwy, Y Llew Du
12 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth 5 Uno ym Methel
Rehoboth 10 Bugail (C)

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Beryl a Mair, gyda Ceri'n dylunio.
Golygyddion mis Chwefror fydd Eirian a Geraint (post@garnwen.org.uk).
Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 3 Chwefror, a bydd y papur ar werth ar 10 Chwefror.

Pen-blwydd Arbennig

Pob dymuniad da i Joanna Regan, Free Trade Hall, Taliesin, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar 28 Rhagfyr 2016.

Brysia wella

Dymuniadau gorau i Mai Leeding, Glannant, Taliesin, sydd heb fod yn hwylus dros gyfnod y Nadolig. Brysia wella Mai!

Eglwys St. Pedr, Elerch

Bu'n gyfnod prysur yn Eglwys Elerch dros yr Adfent, y Nadolig a'r Calan. Cynhaliwyd ein gwasanaeth carolau blynyddol ar ddechrau Rhagfyr a chyflwynwyd y casgliad eleni o £100 i elusen Calonau Cymru. Roedd y gwasanaeth dan ofal ein curad Y Parchg Lyn Lewis Dafis. Lyn hefyd oedd yn arwain y Cymun Bendigaidd ar fore Dydd Nadolig am 8-00 am. Dathlwyd y Cymun Bendigaidd hefyd ar Ddydd Calan, dan arweniad yr Hybarch Hywel Jones.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Huw a Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'rddôl, sydd wedi dod yn daid a nain wedi genedigaeth Elis William Howell, mab i Caryl a'i gŵr Nathan a aned ar 3 Ionawr. Mae Caryl yn athrawes yng Nghaerdydd ac yn byw yn Llantrisant.

Rowland ar y teledu

Yn y gyfres newydd o "Crwydro" efo Bedwyr Rees ar S4C yn ystod mis Ionawr bydd Rowland Davies, Dolcletwr yn siarad a dweud hanes y gwahanol "ynysoedd" sydd yn yr ardal.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn a Gwyn a Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont ar golli modryb i Gwyn yn ddiweddar sef Rhiannon Hughes o Benparcau.

Deunaw oed

Llongyfarchiadau i Mari Lewis, Yr Hen Siop Sgidie, Tal-y-bont ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

Bedydd

Bedyddiwyd Miri Lois Jones, Cilgant y Coed, Taliesin ar 13 Tachwedd yng Nghapel Rehoboth, merch Eifion a Tara Jones.

Pobl a Phethe



Canu Calennig

Hyfryd oedd clywed lleisiau Heledd, Eli, a Rhodri Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont yn dymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' ar garreg y drws fore Calan a hithau'n fore mor oer. Da iawn chi.



Sesiwn Nos Wener

Roedd y Llew Gwyn yn orlawn ar nos Wener 6 Ionawr ar gyfer noson hwyllog o gerddoriaeth amrywiol. Yn perfformio yn y rhan gyntaf oedd Osian Morris, gyda chefnogaeth Nic Davalon, a'r delynores ifanc Cerys Hafana a fu'n chwarae'r delyn deires. Wedi'r egwyl daeth uchafbwynt y noson gyda'r grŵp o Wlad y Basg 'Bitartean' yn difyrru'r gynulleidfa gydag amrywiaeth o ganu a chwarae offerynnau traddodiadol anarferol. Roedd rhain yn gynnwys chwythbrennau a chwaraewyd gydag un llaw, cyrn a tharo plencyn gyda darnau o bren. Dyma noson fywiog i'w chofio.

**Cornchwiglod**

Dros yr wythnosau diwethaf gwelwyd niferoedd uchel iawn o gornchwiglod (lapwings) yn bwyda ar gaeau Mynydd-gorddu a Phen-cefn. Maent wedi bod yn absennol ers nifer o flynyddoedd, ac mae'n dda eu gweld yn ôl.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Evan a Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont ar enedigaeth ei gorwyr Trystan Rhys, mab bach i Rhys ac Angharad yn Alltbylaca.

Croeso

Croeso i Philip ac Alison Brookes sydd wedi symud o gyffiniau Llundain i fyw i Nant Y Nod, Cwm Ceulan, Tal-y-bont. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**DIWRNOD COFIO'R HOLOCAST**

(12.30-2.00 & 4.30-6.00, dydd Gwener, 27 Ionawr): cyfle i fyfyrion a chynnwyl dros ddioddefwyr hil-laddiadau.

CRISTNOGAETH 21 CYLCH MORLAN:

BYW I BWRPAS (7.30, nosweithiau Mercher, 18 Ionawr-22 Chwefror): chwe chyfarfod, pob un yn edrych ar thema wahanol. Dewch i rannu ac ystywio'r meddwl.

Manylion llawn ar wefan Morlan:

morlan.cymru

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 3HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

BORE COFFI

i gefnogi

SHELTER CYMRU

dydd Sadwrn 14 Ionawr
yn yr Ystafell Haearn
10.30yb - 12.00.

NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

NOSON HWYL DDEWI 2017

Yng nghwmni

Côr Dyffryn Dyfi

(Arweinydd Arfon Williams)

Nos Sadwrn 25 Chwefror

Cawl am 6.30

Adloniant am 7.30

Oedolion £8.00 Plant Ysgol £4.00

Tocynnau ar gael gan aelodau'r Pwyllgor

Ysgol Tal-y-bont



Sioe Nadolig Cyw



Cinio Nadolig



Ray Ceredigion



Addysg heddwch



Cynnal arbrawf gwyddonol



Ôl traed Sion Corn yn y Dosbarth Derbyn



Plant blwyddyn 1 a 2 yn creu seren

Ysgol Tal-y-bont

Cinio Nadolig a Ray Ceredigion

Roedd yna gryn edrych ymlaen i'r cinio Nadolig eleni eto. A pha ryfedd? Mae Mrs Jones a Natalie'n paratoi bwyd blasus o'r safon uchaf ar hyd y flwyddyn ac roedd cinio Nadolig eleni eto o'r safon uchaf ac yn flasus tu hwnt. Diolch yn fawr i Mrs James am gynorthwyo eleni eto ac i'r staff am bob cymorth ar y dydd.

Ers sawl blwyddyn bellach rydym yn ffodus o groesawu Ray Ceredigion atom ar ôl cinio i gynnal gweithgaredd o ailgylchu hen ddefnyddiau i greu gwrthrychau newydd sbon. Ac unwaith eto roedd hi'n hyfryd i weld y plant i gyd wrth eu boddau yn cydweithio'n dda ac yn defnyddio eu dychymyg yn greadigol wrth adeiladu. Diolch i bawb wnaeth glirio'r neuadd ar ddiwedd y prynhawn a diolch arbennig hefyd i Shelley Foulkes am bob cymorth.

Ac i gadw ar y thema ail-ddefnyddio ac ailgylchu, bu plant Blwyddyn 1 a 2 yn cydweithio i greu seren Nadolig gan ddefnyddio deunyddiau naturiol o gwmpas yr ysgol.

Siwmperi Nadolig

Mae hi bob amser yn hwyl i ni gymharu'r gwahanol siwmperi a gweld ai'r plant neu aelod o staff sydd â'r gorau! Roedd sawl un diddorol iawn eleni eto a nifer o rai doniol iawn hefyd. Ond prif bwrpas eu gwisgo oedd codi arian i elusen Achub y Plant ac roedd hi'n braf gallu trosglwyddo bron i £50 i goffrau'r elusen hon.

Sioe Nadolig Cyw

Yn ystod mis Rhagfyr roedd rhai o gymeriadau rhaglenni plant S4C ar daith trwy Gymru yn cyflwyno sioe newydd sbon. Plant y Cyfnod Sylfaen gafodd fynd i weld y sioe eleni ac roedd cryn dipyn o gynnwrf ac edrych ymlaen wrth ddal y bws i ysgol Penweddig. Cafwyd sioe ardderchog hefyd â'r plant yn mwynhau bod gyda Huw, Catrin, Dona Direidi, Seren, Lobs, ac wrth gwrs y cymeriad annwyl Cyw wrth iddyn nhw gyflwyno sioe llawn hwyl a hud y Nadolig!

Radio Cymru

Efallai i chi gofio fod Aled Hughes, cyflwynydd Radio Cymru, wedi ymweld â'r ysgol ychydig wythnosau nol pan oedd yn beicio trwy Gymru i godi arian i Blant mewn Angen. Yn dilyn ymweliad hwnnw, daeth yn ôl i recordio rhai o'r plant yn trafod agweddau am y Nadolig ac roedd hi'n

braf i glywed lleisiau'r plant yn aml dros yr ŵyl yn rhannu eu profiadau gyda'r genedl gyfan!

Sinema

Mae plant yr ysgol wrth eu bodd yn cael trip i weld ffilm yn Sinema'r Commodore yn Aberystwyth yr adeg yma bob blwyddyn. Eleni, y ffilm oedd The Secret Lives of Pets ac roedd clywed y plant yn chwerrthin ar anturiaethau Max, Duke a Snowball â'r cymeriadau doniol eraill yn cadarnhau eu bod wedi mwynhau eleni eto. Diolch i haelioni'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am noddi'r weithgaredd.

Yr Ysgol yn y Gymuned

Roedd hi'n hyfryd derbyn gwahoddiad gan Ferched y Wawr Tal-y-bont â'r cylch i gymryd rhan mewn Gwasanaeth Nadolig Cymunedol yng Nghapel Rehoboth, Taliesin ychydig cyn y Nadolig. Roedd hyd at 10 cymdeithas neu sefydliad wedi cyflwyno eitem. Llwyddwyd i greu naws hyfryd yn ystod y gwasanaeth a hoffwn ddiolch i'r plant a'r rhieni am ein cefnogi mewn cyfnod mor brysur.

Cerddorfa Ysgolion Ceredigion a Chôr Corissimo

Un o uchafbwyntiau mawr yr adeg yma o'r flwyddyn yw cael cyfle i ymweld â Chanolfan y Celfyddydau i wrando ar Gerddorfa Ysgolion Ceredigion a Chôr Corissimo. Bob blwyddyn mae'r gyngerdd yn llwyddo i greu cynnwrf arbennig ac roedd neuadd orlawn o dros 650 o blant o ysgolion cynradd wedi eu plesio'n fawr eleni eto. Llwyddwyd i greu naws arbennig gan y gerddorfa a'r côr – llongyfarchiadau mawr i bawb. Ardderchog!

Ond rhag ofn i chi gyd feddwl mai dim ond mwynhau wnaeth y plant yn ystod mis Rhagfyr, fe fuon nhw'n gweithio'n galed hefyd. (Lluniau i ddangos rhai o'r gweithgareddau eraill)

Addysg Heddwch

Mae'r rhaglen bwysig yma wedi parhau yn ystod y mis a hoffwn ddiolch i Mrs James, Miss Powell, Mrs Dafis a Mrs Hughes am ein dysgu am wahanol ffyrdd o ymlacio. Roedd y staff hefyd wrth eu boddau'n dysgu'r technegau hyn ar ddiwedd tymor hir a phrysur.

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni
drwy'r wfan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

**Y LLEW GWYN
TAL-Y-BONT**

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Plwyf tecaf y plwyfi yw



Tŷ Bwlchstyllen heddi

Gallaf ddweud â llaw ar fy nghalon, yr un peth a ddywedodd Eifion Wyn am gwm Pennant 'slawer dydd mai plwyf tecaf y plwyfi yw plwyf Ceulan a Maesmawr. Ces fy ngeni yma a'm bedyddio, a chael fy addysg, dod yn aelod o Eglwys Iesu Grist, a phriodi yma. Cefais bleser eithriadol o gael cydweithio a'r fam natur heb symud o'r plwyf yma ar hyd fy oes. 'Rwyf wedi cerdded pob llathe'n o'r plwyf droeon. Mae pob peth sydd ei angen tuag at fyw boed yn faterol neu yn ysbrydol i'w gael yn helaeth yn y plwyf yma. Ni fu raid i mi fynd allan o'r plwyf i chwilio am ddim, hyd yn oed chwilio am wraig. Braint fawr yw cael byw mewn plwyf mor fendigedig a phlwyf Ceulan a Maesmawr, plwyf sydd mor gyfoethog mewn defnyddiau crai sydd mor angenrheidiol tuag at fyw, sef dŵr, coed, cerrig, gwynt a phob math o bethau eraill.

'Rwy'n teimlo fel 'rwy'n heneiddio, fod y plwyf wedi dirywio yn arw ers y cof cyntaf sydd gen i ohono. Mae'n bryd i ni ddechrau meddwl o ddirif beth sydd yn digwydd i'r plwyf. Mae'r sefydliadau mawr wedi godro'r plwyf yn ddirugaredd ar hyd y blynyddoedd, ac wedi gwneud elw mawr iddynt eu hunan o werthu'n defnyddiau crai ni, ond nid ydynt wedi gwneud unrhyw beth i gynnal y plwyf rhag dirywio, er mai nhw sy'n gyfrifol am y diriwiad.


Mae'r Bwrdd Dŵr wedi gwneud elw mawr trwy werthu ein dŵr ni. Mae teulu'r Masoniaid, Glan-yr-afon, Penrhyncoch, a theulu Edwards, Lletyllwyd, Tal-y-bont, wedi talu rhent iddynt am ran helaeth o'r plwyf, am Ffos-fudr a Bwlch-styllen, a'r holl ddaear sydd a rhediad dŵr i lyn Craig-y pistyll, ers cyn côf gen i. Nid yw'r Bwrdd wedi bod yn barod i wario ceiniog ar eu heiddo, os chwythai'r gwynt lechen o dô tŷ Ffos-fudr, nid oedd unrhyw un yn malio dim. Gadawsant iddo ddirywio yn ara' bach ar hyd y blynyddoedd, ac yn y diwedd, ar ôl iddo fynd yn beryglus, chwalont e' i'r llawr a'i gladdu dan tunnelli o gerrig, heb hyd yn oed ofyn caniatad ein Cyngor Cymuned yn gyntaf. Claddwyd yr holl hanes oedd iddo. 'Roedd yna balys tu mewn i'r drws ac enw pawb oedd wedi mynychu'r lle ar hyd y blynyddoedd. Ni allent roi cymaint â phlac bach i nodi lle y bu, fel y maent wedi addo. Mae tŷ Bwlch-styllen yn brysur yn mynd i'r un man, ni wariont ddime arno erioed, tai hyfryd, mae'n drueni.

Prynodd y Comisiwn Coedwigaeth 6000 o erwau'r plwyf yn 1963 yn slei, heb roi gwybod i'r tenantiaid, gorfodwyd hwy i gyd werthu eu diadelloed, ar ôl gwaith i geisio eu gwella. Taflwyd y tenantiaid i gyd allan yn ddiseromoni, ar ôl yr holl brotestio fu. Bu Undeb Amaethwyr Cymru yn ymladd yr achos yn yr Uchel Lys yn Llundain

ar ran yr aelodau i geisio eu cadw allan o'n plwyf ni. Oedd dim gobaith ganddynt. 'Roedd y cyfan wedi'i wneud mor ddirgel ganddynt. 'Roedd bai mawr ar yr arwerthwr gadwodd y gyfrinach oddi wrth y tenantiaid. Mi 'roedd y golled yn aruthrol i ffermwyr y plwyf yr adeg hynny. Eu dadl hwy oedd rhoi gwaith i'r dyfodol. Ble ma'r gwaith heddi? Peiriannau anferth rwyf i yn gweld yn gwneud y gwaith i gyd, ac yn corddi'r ddaear a'r nentydd yn ddirugaredd. Chwalont bob tŷ oedd ar y stâd, rhag ofn âi rhywun i fyw ynddynt. Sychont y corsydd i gyd, a dyna sy'n rhannol gyfrifol am y llifogydd 'rydym yn eu cael ers hynny. Collom bob pysgodyn o'r nentydd i gyd. 'Roedd y bugeiliaid a'u teuluoedd yn dibynnu arnynt am eu cynhalieth cyn 1963. Mae rhai o Gyfoeth Naturiol Cymru yn barod iawn i erlid amaethwr pan lygruth e ddarn o afon yn ddamweiniol, mi ddaw'r pysgod yn ôl mewn pymtheg mlynedd, medde nhw. Ni fedrith Y Comisiwn Coedwigoedd gynt, Cyfoeth Naturiol Cymru



Castell Bach heddi



Cwarel yr Hafan. Sylwch pa mor beryglus maent wedi llwyddo i wneud cynefin y ddafad druan

heddiw, fyth bythoedd ddod a chyfoeth naturiol oedd yn bodoli yn ein plwyf ni cyn 1963 yn ôl, ar ôl iddynt lygru ein nentydd a'n afonydd, nid darn o afon lygront ond afonydd a nentydd yr ucheldir i gyd. Pam nad ydynt yn cael eu herlid? Collom gynefin y chwibanogl a'r grugiar. Mae gweld Castell Bach heddi, a llawer man arall ar ôl torri a chlirio'r coed yn dorcalonnus i edrych arno, a ni y plwyfolion lleol fydd yn gorfod diodde'r olygfa druenus yma am flynyddoedd.

Mae gwerth ffortiwn o goed wedi mynd allan o'r plwyf, ond nid yw'r plwyf wedi elwa dim, dim ond gorfod diodde gweld y ddaear oedd mor annwyl yn cael ei rhacso, a'i ddirywio.

Boddodd y Bwrdd trydan ran helaeth o'r plwyf yr un pryd i gynhyrchu trydan. Agorwyd chwarel ar yr Hafan i gael y cerrig i adeiladu'r argae, ein cerrig ni, cerrig o'r ansawdd gorau. Aeth y chwarel yn anferth erbyn diwedd codi'r argae. Ar ôl iddynt gael beth oedd arnynt hwy eisiau, gadawsont y cyfan fel ag yr oedd, yn gythreulig o beryglus i fugail ac anifail, ac felly y mae hyd heddi, heb hyd yn oed arwydd bod y lle'n beryglus, a bod yna ugeiniau o fetrau o gwymp o'r top i'r gwaelod, heb unrhyw beth i amddiffyn rhag cael damwain, ac am o leiaf can metr o hyd. Pam fod pobl Iechyd a Diogelwch yn llethu cymdeithasau cefn gwlad gyda'u rheolau pitw, ac yn anwybyddu'r llyfdd sydd wirioneddol beryglus i drigolion y plwyf? Mae'n amlwg bod dwy gyfraith ganddynt hwy eto, un i'r werin bobl, ac un i'r sefydliadau mawr.

Mor wahanol y manteisiodd y diweddar Dr. Dafydd Huws, Mynydd Gorddi, ar wynt y plwyf. Gwariodd e arian mawr mewn melinau gwynt i gynhyrchu trydan glân. Gofalodd fod cyfran o'r elw yn dod yn ôl i'r plwyf a'r plwyf cyfagos. Mae llw o gymdeithasau wedi elwa yn arw yn y gorffennol, ac mi elwan' eto yn y dyfodol. Mae ein dyled yn fawr iawn i'r teulu, ac i Dr. Huws am ei weledigaeth a'i gyfraniad. Onid yw hi'n bryd i ni ofyn i'r sefydliadau eraill yma i wneud yr un peth, maent wedi mynd a chyfoeth ein plwyf ni yn ganiataol, heb dalu dim amdanynt. Meddyliwch faint o lês fyddai wedi bod i'r plwyf petaem wedi cael yr un cyfraniad am ein dŵr, coed a'n cerrig ag a gawsom am ein gwynt. Mae'r sefydliadau mawrion yma wedi gwneud ffortiwn ar ein cefnau. Dylent gyfrannu yn bendant am y dirywiad enbyd sydd wedi digwydd i'r plwyf ers dechrau'r chwedegau.

Gwilym Jenkins

Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Elin Jones AC



I ddechrau, hoffwn ddiolch i holl aelodau staff y gwasanaeth iechyd a brys, yn enwedig y rhai a weithiodd, yn ddi-baid, dros gyfnod y Nadolig. Mae eu hymroddiad i'w gwaith yn gymeradwy, ac fe wyddwn fod pawb a oedd yn gorfod treulio amser yn yr ysbyty dros y cyfnod yn ddiolchgar iawn o amser a chyfeillgarwch y staff yno.

Mae sicrhau dyfodol Ysbyty Bronglais fel canolfan iechyd i Geredigion a'r canolbarth yn hollbwysig i'n hiechyd ni gyd. Mae'n rhaid i ni sicrhau, o hyd, bod y dechnoleg orau ar gael i ni, a bod yr adnoddau cywir yno ar gyfer ein poblogaeth. Roeddwn yn falch iawn, felly, gyda datganiad y Llywodraeth cyn y Nadolig y byddai Ysbyty Bronglais yn derbyn buddsoddiad ar gyfer sganiwr MRI newydd. Fe fydd y peiriant yn siŵr o chwarae rhan bwysig yng ngwaith yr ysbyty dros y blynyddoedd sydd i ddod, ac yn bendant yn achub a gwella bywydau nifer yn ein hardal.

Yn dilyn gwaith gan swyddogion y Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am gyllid i agor gorsaf drên yn Bow Street. Fe fyddai agor yr orsaf yn helpu lleihau dwyster y traffig ar hyd y ffyrdd yng ngogledd Ceredigion, ac yn sicrhau cyswllt dibynadwy rhwng Aberystwyth a Bow Street. Fe fyddai'n sicr o ostwng y pwysau ar barcio yn y dref hefyd.

Pan ddaw'r orsaf, mater diddorol i'w benderfynu fydd enw'r orsaf. Cysylltodd un etholwr â fi yn ddiweddar i gynnig Gorsaf Gogerddan. Mae hyn yn sicr yn awgrym diddorol ac yn ehangu perthnasedd yr orsaf i'r ardal o bosib. Tybed beth mae darllenwyr Papur Pawb yn meddwl o'r awgrym? Croeso i chi gysylltu â fi gyda'ch barn.

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Papur Pawb ac i bawb yng Ngheredigion. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio dros bawb yn ein sir dros y flwyddyn hon. Fe fyddaf yn parhau i gynnal cymorthfeydd cyson trwy'r etholaeth, ac yn croesawu negeseuon a gwaith achos gan bawb.

Croeso i chi gysylltu dros e-bost (Elin.Jones@cynulliad.cymru) neu drwy ffonio fy swyddfa ar 01970 624516, er mwyn trefnu cwrdd neu ddarganfod sut y medraf eich helpu.

Elin Jones AC

parhad o dud 1

Profi'r Melys a'r Chwerw yn Berlin

Dyweddodd Robat: "Buom yn lwcus i ddod nôl i Dal-y-bont yn groeniach — lle mwy diogel na'r rhan fwyaf, gobeithio! Ond er gwaethaf arswyd yr ymosodiad yng nghanol Berlin, roedden ni'n falch o gymryd rhan yn y digwyddiad yn Wittenberg ac wrth ein bodd bod y dre — crud y Chwyldro Protestanaidd — yn anrhydeddu ein tad-cu a'n mamgu, ac yn dangos awydd i wneud rhyw fath o iawn am yr erlid arnynt yng nghyfnod y rhyfel."



Yr arwydd stryd newydd

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes
Plymio a Gwresogi
Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew
01970 832129
07761 917235

Maes y Gwaed

Wele gychwyn ar gyfres achlysurol newydd yn olrhain hanes rhai o drigolion yr ardal hon a fu fyw drwy gyfnod cythryblus y Rhyfel Mawr, gan mlynedd yn ôl. Dechreuwn gydag ychydig o hanes un o ddynion amlycaf yr ardal yn ystod yr ugeinfed ganrif, sef Caledfryn Evans.

Ganed Caledfryn Evans ym mharsel Henlllys yn 1896, yn fab i deiliwr o'r enw Edwin W Evans a'i wraig Mary. Cyn y rhyfel bu'n gweithio ar ffermydd lleol, gan gynnwys Llwynysguborwen, gan fyw gyda'i deulu yn Paris House, Tal-y-bont. Ddechrau Mawrth 1915, ynghyd â rhai o'i gyfeillion, ymunodd â'r fyddin. Penderfyniad byrfyfyr oedd hwn yn ôl Caledfryn mewn cyfweiliad teledu rhai blynyddoedd yn ôl. Daeth yn aelod o'r 15fed bataliwn o'r Ffiwsilwyr Cymreig a adwaenid fel y 'Carmarthen Pals' gan fod llawer o'r aelodau wedi'u recriwtio o ddalgylch Caerfyrddin.

Yn Rhyl a'r cyffiniau y bu'r 'Pals' yn derbyn eu hyfforddiant. Wrth ymarfer ymosod gyda'u bidogau siarsiwyl y milwyr gan y swyddogion i weiddi a rhegi. Ni wyddai Caledfryn am orchymyn 'mwy dwl' yn ei fywyd. Yn y Rhyl clywodd y Parch John Williams, a oedd yn enwog am recriwtio dynion ifanc i'r fyddin, yn pregethu i'r Fyddin Gymreig mewn neuadd orlawn.

Ddiwedd 1915, teithiodd y bataliwn i Fflandrys gan flasu rhyfela go iawn am y tro cyntaf yn y ffosydd ger Fleurbaix, nid nepell o gamlas La Basse.

Cofiai Caledfryn am y llygod mawr yn y ffosydd gwlyb ac effaith nwy gwenwynig a wnâi iddo gredu fod ei lygaidd yn 'cwympo mas'.

Ym mis Mehefin 1916 martsiodd llawer o gatrodau'r Fyddin Gymreig (Adran 38ain) i ddyffryn yr afon Somme er mwyn paratoi am y frwydr fawr a oedd i gychwyn yno ar 1 Gorffennaf. Wrth gludo offer trwm dioddefodd Caledfryn niwed i'w gefn a chludwyd ef i ysbyty maes ar 2 Gorffennaf lle y bu am ddeuddeg diwrnod. Yn y cyfamser bu ei fatiwn ym merwr frwydr waedlyd am Goedwig Mametz, pryd y colodd oddeutu mil o filwyr y Fyddin Gymreig eu bywydau. Yn eu plith oedd un o gyfoedion a chyd-filwr Caledfryn gyda'r 'Pals', sef Thomas Jones, Maldwyn House, Tal-y-bont, a laddwyd ar 11 Gorffennaf.

Ganolf 1917 roedd y 'Pals' ym mrwydr fawr Passchendaele ac ym mis Medi cafodd Caledfryn ei glwyfo pan darwyd ef yn ei glun gan fwled. Cludwyd ef i Brydain a threuliodd gyfnod mewn ysbyty milwrol yng Nghaerfaddon yn gwellu. Erbyn 1918 roedd wedi'i drosglwyddo i Gorfflu'r Llafurwyr Amaethyddol. Golygai hynny ei fod ar gael i weithio ar ffermydd yn lle'r gweision fferm a fyddai wedyn ar gael i ymuno â'r fyddin, heb amharu dim ar allu ffermwyr i amaethu'u tir.

Ym mis Gorffennaf 1918 cynhaliwyd cyngerdd yn Nhal-y-bont i estyn diolch iddo ef a milwr arall, Willie Jones, New street, am eu gwasanaeth. Gwnaed casgliad ar y noson a chyflwynwyd yr arian i'r ddau.

Wedi'r rhyfel, daeth Caledfryn yn ffigwr adnabyddus iawn yn lleol, gan weithio fel postmon, ei benodi'n Ynad Heddwch a dod yn flaenor yng nghapel Nasareth. Yn 1984 dyfarnwyd Fedal Gee iddo am ei ffyddlondeb i'r ysgol sul a'r capel. Bu Caledfryn farw yn 1995 ac yntau'r 98 mlwydd oed.



Sortio'r Seren

Mae'n swyddogol! Mae yna gryn dipyn o dalent yn Ysgol Tal-y-bont. Ac roedd hynny'n amlwg iawn yn y cynhyrchiad Nadolig eleni eto. Mae wedi bod yn arferiad gan yr ysgol ers blynyddoedd bellach i drefnu pantomeim am yn ail â gwasanaeth yn y capel. Tro'r panto oedd hi eleni ac roedd hi'n braf i weld y Neuadd Goffa dan ei sang a bu'n rhaid chwilio am gadeiriau ychwanegol er mwyn gwneud yn siŵr fod gan bawb le i eistedd.

Nid ar chwarae bach y mae trefnu unrhyw gynhyrchiad, ond mae angen sgiliau trefnu arbennig i greu cynhyrchiad sy'n cynnwys bron iawn i 80 o blant oedran cynradd. Ond dyna gamp Ysgol Tal-y-bont eleni eto. Roedd hi'n amlwg o'r dechrau fod y plant i gyd wrth eu boddau gyda'r elfennau dramatig i gyd, yr actio, y canu a'r dawnsio. Fel y byddai rhywun yn disgwyl, roedd y cynhyrchiad yn cynnwys rhai o'r cymeriadau traddodiadol fel y dylwythen deg, Jac a'i fam, Pws Mewn Bŵts a'r fuwch. Ond roedd cymeriadau mwy cyfoes hefyd fel Gareth Bale a charfan bêl-droed Cymru, James Bond, Bob y Bildar, Spongebob Pants Sgwâr ac fe wnaeth Elvis Presley wneud ymddangosiad hefyd! A gan ei bod hi'n Nadolig, fe lwyddwyd i weu stori'r geni i'r sioe hefyd.

Wel roedd hi'n bantomeim go iawn eleni gan fod Seren y Nadolig wedi disgyn o'r awyr. Heb Seren y Nadolig yn gwenu arnynt, sut yn y byd yr oedd y Nadolig yn gallu parhau? Ac ar ben y cyfan doedd dim trefn o gwbl ar ffatri Siôn Corn am nad oedd yr adeiladwyr wedi dod i godi'r estyniad angenrheidiol mewn da bryd. Roedd yna dipyn o bryder y byddai'n rhaid gohirio'r cyfan. Ond, yn nhraddodiad gorau'r panto, fe lwyddwyd, rhyw ffordd neu'i gilydd i ddatrys yr holl broblemau a sicrhau fod Siôn Corn wedi gallu ymweld â phlant Ysgol Tal-y-bont erbyn dydd Nadolig.

Ar ran pawb oedd yn bresennol, hoffwn i ddiolch yn fawr i Miss Morris am gydlynw'r perfformiad, i'r holl staff am eu gwaith yn paratoi'r plant mor drwyadl ac i'r rhieni hefyd am gynorthwyo gyda dysgu'r geiriau, y caneuon a'r gwisgoedd. Diolch hefyd i David Jones am ychwanegu at y perfformiad gyda'r sain a'r golau.

Mae ardal Tal-y-bont yn ffodus iawn o gael neuadd gymunedol yn y pentref a diolch i bawb am baratoi a chlirio'r neuadd. Ac un diolch arall - diolch arbennig i aelodau gweithgar y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am roi o'u hamser i baratoi ar gyfer y noson ac am weithio mor galed i sicrhau fod pawb wedi mwynhau eu hunain.

Roedd sawl un o'r gynulleidfa wedi nodi fod y perfformiad yn un uchelgeisiol a phob clod i'r plant am ddysgu eu darnau mor arbennig ac am eu perfformiadau cofiadwy. Mae'n amlwg fod cynnal noson fel hon yn atgyfnerthu ymdrechion yr ysgol i fod yn gynhwysol ac i fod yn rhan bwysig o'r gymuned leol. Llonyfarchiadau mawr i chi i gyd - roedd hi'n bleser i fod yn bresennol ar y noson.

Cymdeithas y Chwiorydd

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth, Tre-Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 13 Rhagfyr, ac estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, sef John Gwyn Jones, Capel Seion. Yn ystod y cyfarfod cawsom ei atgofion am dair ardal y bu'n byw ynddynt, sef Blaenpennal, Penuwch a Chapel Seion. Adroddodd hanes diddorol ei deulu a'r cymeriadau yn yr ardal, ynghyd â'i atgofion am ddyddiau ysgol, yr ysgol Sul a'r Clwb Ffermwyr Ifainc gan liwio'r cyfan drwy ddangos nifer fawr o luniau. Diolchwyd yn gynnes iddo am brynhawn diddorol cyn mwynhau'r te a chacennau a baratowyd gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon gyda help llaw gan Non Griffiths.

Cwblhau gwaith gwella llwybr yn Nhref Taliesin

Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar ar lwybr cyhoeddus yn Nhref Taliesin, sy'n darparu llwybr pob tywydd ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'r llwybr yn rhedeg ar hyd Pwll Du, ac yn ffurfio rhan o lwybr Arfordir Cymru. Nod y gwaith oedd annog mwy o bobl i'w ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn ar gobaith yw darparu gwelliannau pellach yn y dyfodol.


Roedd y gwaith yn brosiect ar y cyd rhwng gwirfoddolwyr Hawliau Tramwy Ceredigion, a wnaeth dynnu'r hen ffens a chael gwared ar y llystyfiant, a chontractwyr lleol a oedd â'r dasg o glirio canghennau oedd wedi gordyfu a chael gwared ar blanciau cerdded wedi pydru a gwella arwyneb y llwybrau.

Dywedodd un o'r trigolion lleol 'Rwyf wedi byw yn y pentref ers 40 mlynedd ac ni fyddwn yn defnyddio'r llwybr am ei fod mor fwdlyd. Roedd y ceffylau hefyd yn codi ofn arnaf. Nawr, rwy'n cerdded y llwybr ddwywaith y dydd.'

Ni fyddai'r gwaith wedi bod yn bosibl heb haelioni a chydweithrediad y perchennog tir Mr Michael Chapman, gwaith dygn Ms Sarah Pinnell, Ceidwad Hawliau Tramwy a Chefn Gwlad Cyngor Sir Ceredigion a chyllid gan Adnoddau Naturiol Cymru o dan raglen datblygu a gwella Llwybr Arfordir Cymru.



Mapiau Degwm i Bawb



Map degwm o blwyf Llangynfelyn, 1840au

Bellach mae modd gweld hen fapiau gogoneddus o ardal *Papur Pawb* hon ar y We. Cafodd yr ardal hon, fel bron pob ardal yng Nghymru, ei fapio yn fanwl yn ystod yr 1840au ar gyfer casglu treth y degwm.

Mae'r mapiau yma i gyd, dros 1,200 ohonynt, wedi eu digido yn y Llyfrgell Genedlaethol ac maent arlein ar wefan cynefin.cymru. Croeso i unrhywun fynd ar y wefan yma i edrych arnynt, a chymharu'r hyn a fu gyda beth sydd yma heddiw. Os edrychwch yn fanwl fe welwch reilffyrdd, camlesi, tollbyrth a gweithfeydd mwyngloddio cynnar. Mae tlodai a phlastai ar draws y wlad, a gallwch ddod i hyd i ffermydd mewn mannau anghysbell, a thiroedd amaethyddol sydd bellach wedi eu llyncu gan drefi a dinasoedd - a chronfeydd dwr.

Mae prosiect Cynefin hefyd wedi digido dogfennau'r degwm sy'n mynd gyda'r mapiau. Mae'r rhain yn enwi pwy oedd yn talu'r degwm, a phwy oedd y perchnogion y tir, gwybodaeth ddiddorol iawn i haneswyr teulu. Gan amlaf mae'r wybodaeth wedi ei roi fesul cae, ac mae hefyd yn cynnwys enwau'r caeau a'r defnydd tir. Mae'r dogfennau a'r mapiau yma yn cael eu trawsgrifio gan wirfoddolwyr er mwyn ei gwneud yn bosibl i bawb allu euharchwilio yn hwylus yn y dyfodol, ac mae dros fil o bobl yn rhan o'r prosiect eisoes. Er hynny, mae digon o waith ar ôl, os hoffech chi ymuno gallwch wneud hynny yn rhwydd ar wefan cynefin.cymru, neu trwy anfon ebost at cynefin@llgc.org.uk

Rheolwr y prosiect yw un o feibion Tal-y-bont, sef Einion Gruffydd, Bryngwyn gynt.

Teyrnged

David Joseph Tansey

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth David Tansey ar 6 Rhagfyr 2016, yn 71 mlwydd oed. Bachgen o Dre'rddol oedd Dei, a deuthum i'w adnabod ar ôl iddo ddod i fyw i Maesyderi, Tal-y-bont. Bu'n fy nghynorthwyo am flynyddoedd ar y fferm. Gwelais e'n fachgen hawdd iawn i gydweithio ag ef, ac yr oedd yn gymeriad diddorol iawn. Nid oedd owns o ddiogi yn perthyn iddo, bob amser yn cydio'n y pen trymaf. Adeiladom Llety'r Bugail iddo a'i deulu, a bu'n byw yno am flynyddoedd, a mawr bu ei ofal am y creaduriaid i gyd. Ni chafodd fywyd priodasol hapus iawn, bob tro byddai pethau'n mynd o chwist, byddai'n cofio am ei famgu. 'Roedd yn meddwl y byd ohoni, yn mynd ag ef i'r capel ar Ysgol Sul yn Nhrerddol, pan yn blentyn, ac yr oedd hynny'n rhoi cysur mawr iddo.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth. Bu ei angladd yn Amlogfa Aberystwyth, ar 14 Rhagfyr 2016.

Gwilym Jenkins

**argraffu da
am bris da**



ylolfa holwch Paul am bris ar paul@ylolfa.com
01970 832 304 www.ylolfaf.com

**Blwyddyn Newydd Dda!
Mwynhewch 2017!**



BLACK LION HOTEL

**Mi fyddwn ar gau
rhwng 2 - 18 Ionawr**

Blac 01970 832 555 | croeso@yblac.co.uk

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Boces a bubblewrap ar lein
www.bboxsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Ddyl, Machynlleth, SY20 8BQ

Gyrfa Chwist y Sioe



Ar nos Fercher 14 Rhagfyr cynhaliwyd Gyrfa Chwist y Sioe yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Roedd y neuadd yn gyfforddus iawn gyda 27 o fyrrdau a Glyn Davies yno yn cadw trefn ar bawb.

Hanner amser cafwyd paned a lluniaeth a drefnwyd gan y gwagedd a chyfle i brynu tocynnau'r raffl fach gan Marion Evans ac Ann James.

Buddugwyr y noson oedd:

Sgôr uchaf: 178 (Gwydd): Shana Rees

Twrci: Janet Evans, Barry Edwards

Cyw Iâr: Ifan Davies, Dilwyn Evans

Potel o sieri: Gaenor Breeze, Neil Lewis

Pwdin Nadolig: Audrey Evans, E Daniels, Dewi Jenkins, John Morgan

Bwrw allan (Hwyaden): Mair Jones, Griff Edwards

Miniatur isaf: Mair Rees, WE

Roberts

Dyn/Dynes yn eistedd hiraf:

Mari Lloyd, Idwal Jones

Plentyn 16 oed ac iau: Teleri

Morgan, Steffan Huxtable

Nid oedd ein Llywyddion yn gallu bod yn bresennol, felly tynwyd y ddwy raffl gan aelod o'r pwyllgor. Dyma'r prif enillwyr:

Penwythnos i bedwar ym

mrthyn gwyliau Tynrhelyg: Gwen Manley

£100: Andrew Curley, d/o Anthony Motors

£50: Bleddyn Richards, Penuwch Fawr, Capel Seion

MOT Garej Davmor: Sandra, d/o Tynrhelyg

Pump sach o lo: A Lewis, Llandre

Tocyn anrheg y Blac: A Morgan, Maesmawr

£25: Gerallt Evans, Pantydwn

Tocyn cig: Mark Jones, Croesoswallt

£20: Robat Gruffudd, Bryngwyn

£10: Osian a Gruffudd, d/o Llwynglas

Tocyn anrheg CCF Aberystwyth: Lisa, d/o Tynrhelyg

Potel o win: 832 686

Yn y raffl fach enillwyd y gwobrau gan y rhai oedd yn y neuadd ar y noson. Cyn troi am adref, diolchodd ein cadeirydd am y gefnogaeth a gafwyd ar y noson.



Janet Evans a Marion Evans

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Ysgol Sul Bethel

'Dim Lle' oedd thema gwasanaeth yr Ysgol Sul, noswyl Nadolig a doedd dim llawer o le ar ôl i bawb eistedd yn y chapel wedi i gynifer ddod i gefnogi'r plant a'r ieuencid – a braf hynny. Cyrhaeddodd pawb i sain carolau yn cael eu chwarae ar ddwy delyn bedal gan Medi a Catrin.

Canwyd dwy garol ar ddechrau'r gwasanaeth gan bartion Cymdeithas Papur Pawb a Rhieni a Chyfeillion yr Ysgol Sul, gyda Betsan yn cyfeilio ar y fflwrt, cyn i'r plant cynradd ac uwchradd ddangos ystyr teitl y gwasanaeth trwy bortreadu ffoaduriaid ifanc 2016. Cafwyd disgrifiad a chefnidir teuluol dychmygus Hosein, Shokoufeh, Shahad, Israa a Teba gan pob un.

Stori Mair a Joseff yn chwilio am le a berfformiodd plant y festri a chafwyd cymorth tri gŵr doeth arbennig iawn, sef William Jones, Gwilym Jenkins a Hywel Griffiths a fu mor barod i gymeryd rhan ar fyr rybudd! Dyna lwc fod y gwisgoedd a'r coronau yn eu ffitio!

Yn clymu'r ddwy olygfa fe ganodd Geraint Howard unawd 'Dim Lle'.

Diolch i bob un a gymerodd ran ac a fu'n helpu gyda'r cynhyrchiad gan sicrhau fod gwir neges y Nadolig wedi cael ei gyflwyno mor ardderchog.

Yn ystod y gwasanaeth derbyniwyd casgliad o £327 tuag at elusen sy'n gweithio gyda'r ffoaduriaid.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch



Parti Cymdeithas Papur Pawb

Ar nos Sul, Rhagfyr 11, cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Cymunedol yng nghapel Rehoboth, Tre Taliesin dan nawdd y gangen leol o Ferched y Wawr. Cynrychiolwyd y capeli lleol yn y gwasanaeth ac hefyd sefydliadau a chymdeithasau gan sicrhau deg eitem amrywiol. Cafwyd darlenniadau unigol yn gerddi, carolau a rhannau o'r Beibl ac hefyd bartion llefaru a chanu. Yn cyfeilio i'r carolau cynulleidfaoel roedd Mrs Eiriona Metcalfe. Yn ystod y gwasanaeth casglwyd £283 tuag at yr elusen Llyfrau Llafar Cymru. Rhoddwyd y fendith gan y Parch Wyn Morris.

Wrth droi am adre, mawr oedd y canmol a'r gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth a ddaeth a chymaint ohonom at ein gilydd i ddathlu'r Nadolig.



Panto Sefydliad y Merched Eglwysfach

Sefydliad y Merched Eglwysfach yn dathlu y nadolig gyda fersiwn wahanol o Cinderella ble roedd Cinderella a'r cast yn ryfelwyr eco yn brwydro i edrych ar ôl eu cymuned a'i phroblemau yn 2016.

Ar nos Lun 16 Rhagfyr cawsom ginio Nadolig blasus yn y Wildfowler. Rydym yn cwrrdd ar ddydd Llun cyntaf pob mis yn yr Ystafell Haearn a mae croeso ichi ymuno efo ni.

CHWARAEON

Colli Bant yn Bont

Mae wedi bod yn gyfnod tawel dros y Nadolig ar ein meysydd pêl-droed ond ar Sadwrn cyntaf 2017 dioddefodd tîm cyntaf Tal-y-bont ergyd i'w gobeithion o gipio pencampwriaeth adran gyntaf Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch. Collodd y bechgyn o bedair gôl i ddim oddi cartre' ym Mhontrhydfendigaid. Wedi'u buddugoliaeth, mae'r Bont bellach wyth bwynt ar y blaen i Dal-y-bont ar frig yr adran. Ni fydd gêm gynghrair gan y tîm tan Sadwrn olaf y mis ond yn y cyfamser bydd modd canolbwyntio ar gystadlaethau cwpan. Ar 14 Ionawr bydd y tîm yn teithio i'r Borth i chwarae yn rownd gyntaf Tlws Coffa Len & Julia Newman ac ar y Sadwrn canlynol croesewir Tregaron i Gae'r Odyn Galch yn ail rownd Cwpan y Cynghrair.

Mae Eilyddion Tal-y-bont yn parhau ar frig yr ail adran ond collont o ddwy gôl i un bant yn Nolgellau yng ngrŵp 1 tlws yr ail adran. Bydd y tîm yn gobeithio cael gwell hwyl arni yn y rownd nesaf y gystadlaethau hon oddi cartref yn Llan-non.

Ocsiwn

Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont

Casglwyd £1,001.00 yn Ocsiwn Nadolig y Clwb, diolch i Wendy Kelly, Tal-y-bont (a Paul) am drefnu ac i bawb a gyfrannodd yn hael a diolch i bawb am gefnogi. Diolch hefyd i Janet Evans, Cefngweiriog am drefnu Raffl Dyddiadur, enillydd y wobr o £100 oedd Ioan Morris, Aberystwyth.

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Y FFAIR AEAF



Unwaith eto, ddiwedd mis Tachwedd, fe aeth Rowland a Iolo Davies, Dolclettwr, a dau bâr o wŷn tew i'r Ffair Aeaf. Wedi golchi a trimio yr wŷn cafodd y ddau bâr eu harddangos ar y bore Llun. Cafwyd llwyddiant eto eleni - cyntaf a trydydd allan o wyth pâr yn nosbarth y defaid Dorset.

Yn yr arwerthiant ar y p'nawn Mawrth prynwyd y ddau bâr gan y cigydd William Lloyd Williams o Fachynlleth. Llongyfarchiadau i deulu Dolclettwr.

Dofednod Arbennig



Llongyfarchiadau i Marion Evans, Tynant, Tal-y-bont ar ei llwyddiant yn y Ffair Aeaf. Dyma ei chanlyniadau: Gŵydd: 1af; Twrci dan 16 pwys: 1af; Hwyaen: 1af; Cyw Iâr dan 8 pwys: 1af; Cyw Iâr dros 8 pwys: 1af; Pencampwr (a thlws gwydr) gyda'r Wŷdd; Cilwobr gyda'r Twrci.

Llongyfarchiadau i Eifiona Evans, Glanaber, Tal-y-bont ar ei llwyddiant hithau yn dangos moch Cymreig ei thad a'i brawd, sef Brinley a Carwyn Davies, Penlan, Trefilan, Talsarn, yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Yn ogystal ac ennill Pencampwriaeth y mochyn sengl yn adran pwysau'r cigydd 90 - 105 kg, cafodd gydradd gyntaf am y nifer uchaf o bwyntiau yn adran y moch, 3 gwobr gyntaf, 3 ail wobwr, 2 drydedd wobwr a 2 bedwaredd wobwr. Ffair Aeaf i'w chofio yn wir i Eifiona a'r teulu.



Ffair Aeaf Machynlleth

Llongyfarchiadau i Alan a Holly Williams, Gwarcwm Isaf, Taliesin ar ennill cystadleuaeth y carcass biff gorau yn Ffair Aeaf y cigydd William Lloyd Williams ym Machynlleth. Mae'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn flynyddol a gwyh oedd gweld eidion du pur Cymreig yn curo'r holl fridiau biff eraill eleni.

Sam mewn panto

Wedi tair blynedd yn astudio theatr gerddorol yn un o golegau mwyaf adnabyddus Llundain, cafodd Sam Ebenezer, Maesyfelin, Tal-y-bont, ei gyfle cyntaf i chwarae prif ran sef Aladdin mewn pantomeim yn Newcastle. Ar ôl graddio ym mis Tachwedd teithiodd yn unionsyth i Newcastle i ymarfer ar gyfer cyfres o ddwy sioe bob dydd am bedair wythnos. Cafodd y cyfle i weithio gydag unigolion sydd â blynyddoedd o brofiad yn y maes, yn ogystal â pherfformio gyda Shane Lynch, un o aelodau "Boyzone". Mae Sam yn gobeithio y bydd ei berfformiad yn agor mwy o ddrysau iddo yn y dyfodol. Gyda'r panto'n dod i ben, aiff Sam ymlaen yn awr i Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, ar gyfer perfformiadau ar gyfer disgyblion Ysgol Uwchradd. Pob lwc iddo wrth iddo ddatblygu ei yrfâ.

